Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

Dyddiad / Date Medi

Annwyl Gyfaill

Mae Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad yn cynnal ymchwiliad ym maes Gostwng Carbon yng Nghymru.

Bydd y Pwyllgor yn ymdrin â'i ymchwiliad fesul testun er mwyn hwyluso'r gwaith o gasglu tystiolaeth berthnasol. Y testun cyntaf fydd gostwng y carbon a ryddheir o gartrefi.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n amlinellu barn eich sefydliad chi am y cwestiynau yn yr holiadur amgaeedig.

Anfonwch eich tystiolaeth ysgrifenedig erbyn **19 Hydref 2007** at Virginia Hawkins yn:

Sustainability.comm@Wales.gsi.gov.uk

neu

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Swyddfa'r Cynulliad
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Cyhoeddir cylch gorchwyl yr ymchwiliad maes o law.

Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori ar destunau eraill pan fydd yn paratoi i gynnal sesiynau tystiolaeth arnynt.

Yn gywir

Mick Bates
Cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Cwestiynau'r ymgynghoriad ar CO_2 (carbon a ryddheir o gartrefi)

Dyma'r ymgynghoriad cyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau a fydd yn sail i ymchwiliad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym maes gostwng carbon. Cynhelir ymgynghoriadau ar drafnidiaeth, diwydiant a'r sector cyhoeddus, amaethyddiaeth, cynhyrchu ynni a chynllunio maes o law.

Mae'n bosib na fydd pob cwestiwn yn berthnasol i bawb. Atebwch y cwestiynau sydd fwyaf perthnasol i chi.

Cwestiynau cyffredinol

1. A yw'r targed arfaethedig i ostwng allyriadau carbon 3 y cant y flwyddyn erbyn 2011 'mewn meysydd lle mae'r pwerau wedi'u datganoli'[1] yn ddigonol i sicrhau bod Cymru'n cyfrannu'n llawn at y gwaith o gyflawni targedau'r DU? Os na, pa dargedau ddylid eu pennu?
2. A ddylid seilio'r targed i ostwng allyriadau ar yr ynni a ddefnyddir gan Gymru, yr ynni a gynhyrchir ganddi, neu'r ddau (h.y. a ddylai ystyried y carbon deuocsid a gynhyrchir yng Nghymru, neu'r allyriadau carbon deuocsid y mae dinasyddion Cymru'n gyfrifol amdanynt, beth bynnag fo'r tarddiad)?

Cwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â'r carbon deuocsid a ryddheir o gartrefi:

3. Pa heriau penodol y mae Cymru'n eu hwynebu o ran gostwng y carbon deuocsid a ryddheir o gartrefi a sut y gall oresgyn yr heriau hyn?
4. I ba raddau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llwyddo i ddefnyddio'i phwerau i ostwng y carbon deuocsid a ryddheir o gartrefi?
5. O dargedu adnoddau ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn ffordd wahanol, a fyddai modd gostwng y carbon deuocsid a ryddheir o gartrefi yn fwy effeithiol nag a wneir ar hyn o bryd? Os felly, ym mhle ddylid gwario'r adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau'r dylanwad mwyaf? (Rhowch fanylion i ategu'ch tystiolaeth.)
6. Pa ddulliau eraill a ddefnyddiwyd gan weinyddiaethau eraill (y gweinyddiaethau datganoledig, y DU, gwledydd eraill) i ostwng y

[1] Llafur Cymru a Phlaid Cymru, *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*, http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/40382/One_Wales_-_Welsh.pdf?lang=cy

carbon deuocsid a ryddheir o gartrefi y byddai modd eu mabwysiadu yng Nghymru o dan y pwerau presennol?

7. Yng nghyd-destun Deddf Llywodraeth Cymru 2006, pa ddulliau eraill o ostwng y carbon deuocsid a ryddheir o gartrefi y byddai modd eu cyflwyno *dim ond* pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael pwerau deddfu ychwanegol?
8. Os bwriedir pennu targedau allyriadau carbon deuocsid i Gymru, a ddylid rhannu'r targedau hynny fesul sector? Os felly, pa gyfran o'r gostyngiadau ddylai ddeillio o gartrefi?